Business in Focus: Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd a Lleihau Carbon

Rhan 1 – Camau gweithredu ar gyfer y 6 mis nesaf

Rhagfyr 2022

Cyflwyniad

Ein gweledigaeth yw bod yn fenter gymdeithasol ddynamig, gynaliadwy a llawn effaith sydd wrth galon ecosystem fusnes lewyrchus.

Rydym eisiau arwain trwy esiampl ac o'r herwydd anelwn at fod yn sefydliad sero net erbyn 2050. Er mwyn cyflawni'r nod uchelgeisiol hwn, rhaid inni sicrhau bod lleihau allyriadau carbon yn rhan greiddiol o'n prosesau cynllunio a'n prosesau penderfynu i gyd.

Mae'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd hwn yn nodi manylion y mentrau allweddol y byddwn yn eu rhoi ar waith er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau cynaliadwyedd. Caiff y Cynllun ei hollti'n ddwy ran, sef:

> *Rhan 1: Camau gweithredu ar gyfer y 6 mis nesaf.* Megis dechrau mae ein siwrnai tuag at ddod yn fusnes mwy cynaliadwy, ac felly mae Rhan 1 yn nodi'r pedwar cam gweithredu cyntaf sy'n angenrheidiol ar gyfer adeiladu'r tîm a'r prosesau hollbwysig er mwyn ein galluogi i barhau'n llwyddiannus â'n siwrnai tuag at ddatgarboneiddio.
>
> *Rhan 2.* Bydd ail ran ein Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd yn cael ei gyhoeddi'n ddiweddarach yn 2023 a bydd yn nodi ein cynllun strategol ar gyfer 2023 i 2030. Hefyd, bydd yn nodi'r targedau penodol y bydd yn rhaid i Business in Focus eu cyflawni er mwyn cyrraedd ein nod o fod yn sefydliad sero net.

Mae gan bob un ohonom ran bwysig yn siwrnai Business in Focus tuag at ddatgarboneiddio. Bydd y dewisiadau a wnawn fel gweithwyr yn allweddol o ran lleihau ein hallyriadau carbon a chyflawni ein nodau cynaliadwyedd.

Y Cyd-destun Deddfwriaethol a'r Cyd-destun Polisi

Yr argyfwng hinsawdd yw un o heriau mwyaf ein hoes. Datganodd Cymru argyfwng hinsawdd yn 2019 ac mae Llywodraeth Cymru wedi llunio deddfau sy'n anelu at leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a chyrraedd sefyllfa sero net erbyn 2050.

Mae'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd hwn yn ategu'r canlynol:

- 17 Nod Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig, sy'n ymwneud â materion byd-eang megis tlodi, anghydraddoldeb a newid hinsawdd – nodau y disgwylir i'r sector preifat gyfrannu tuag atynt.
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n cynnig fframwaith ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Nod y Ddeddf yw sicrhau y bydd modd diwallu anghenion y genhedlaeth bresennol heb effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Gymru leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a chyrraedd sefyllfa sero net erbyn 2050. Mae'n cyflwyno nifer o fesurau ar gyfer gwella a diogelu amgylchedd Cymru.
- Cyllideb Garbon 2 Cymru Sero Net, lle pennir yr ymrwymiadau a'r camau gweithredu gwahanol sy'n ddisgwyliedig o unigolion, busnesau a'r sector cyhoeddus yng Nghymru ar gyfer 2021-2025.

Methodoleg a llywodraethu

Ein cam cyntaf fydd sefydlu Gweithgor Cynaliadwyedd. Bydd y Gweithgor hwn yn cynnwys rhai gweithwyr allweddol o bob rhan o'r sefydliad.

Nod y Gweithgor Cynaliadwyedd yw monitro ein cynnydd ar sail y camau a bennir yn y Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd hwn.

Bydd y Gweithgor Cynaliadwyedd yn adolygu ein cynnydd yn flynyddol a bydd yn cyhoeddi ei ganfyddiadau mewn adroddiad cynaliadwyedd blynyddol. Hefyd, bydd yn adrodd am ein cynnydd yn rheolaidd i Fwrdd Business in Focus ac i randdeiliaid allweddol.

Cam Gweithredu 1 – Sefydlu'r tîm iawn

Er mwyn sicrhau llwyddiant, rhaid inni yn gyntaf sefydlu'r tîm a'r broses lywodraethu iawn.

Cam Gweithredu	Targed	Cyfrifoldeb	Amserlen
1.1 Sefydlu Gweithgor Cynaliadwyedd Business in Focus			
Dewis Hyrwyddwr Cynaliadwyedd Business in Focus ar gyfer arwain y Gweithgor Cynaliadwyedd	Dewis Hyrwyddwr Cynaliadwyedd Business in Focus	-	Ch1 2023
Dewis aelodau'r Gweithgor Cynaliadwyedd i gynorthwyo Hyrwyddwr Cynaliadwyedd Business in Focus	Dewis 3-6 o aelodau	Hyrwyddwr Cynaliadwyedd Business in Focus	Ch1 2023
Pennu rolau a chyfrifoldebau allweddol y Gweithgor Cynaliadwyedd	Cyhoeddi rhestr o'r aelodau a'r rolau allweddol, yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol: ● Casglu a dadansoddi data ● Ysgrifennu adroddiadau ● Hyrwyddwyr rhanbarthol/adrannol	Hyrwyddwr Cynaliadwyedd Business in Focus	Ch1 2023
1.2 Sefydlu prosesau llywodraethu a methodoleg			
Cytuno ar dargedau lleihau ac amserlen ar gyfer cyflawni'r targedau hynny	Cymeradwyo'r targedau lleihau a'r amserlen	Hyrwyddwr Cynaliadwyedd Business in Focus	Ch1 2023
Creu'r fethodoleg sy'n angenrheidiol i gyflawni'r targedau lleihau	Cyhoeddi methodoleg fanwl ar gyfer cyflawni'r targedau a nodir yn ail ran Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd Business in Focus	Hyrwyddwr Cynaliadwyedd Business in Focus	Ch1 2023
Trefnu cyfarfodydd rheolaidd i adolygu'r cynnydd	Dau gyfarfod bob blwyddyn	Hyrwyddwr Cynaliadwyedd Business in Focus	Parhaus
Llunio cynllun cipio data allyriadau Business in Focus	Cyhoeddi'r cynllun cipio data allyriadau yn ail ran Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd Business in Focus	Dadansoddwr Data'r Gweithgor Cynaliadwyedd	Ch1 2023

Cam Gweithredu 2 – Cyfrifo ein hallyriadau sylfaenol

Cyn y gallwn ddechrau lleihau ein hallyriadau, rhaid inni wybod beth yw ein hôl troed presennol. Byddwn yn cyfrifo ein hallyriadau Cwmpas 1 a Chwmpas 2 ac yn dechrau cyfrifo ein hallyriadau Cwmpas 3, gan gyhoeddi'r canfyddiadau mewn adroddiad mewnol erbyn mis Mawrth 2023.

Cam Gweithredu	Targed	Cyfrifoldeb	Amserlen
2.1 Pennu a Chyfrifo Allyriadau Cwmpas 1 sy'n deillio o'r canlynol:			
Y Fflyd: Cynnal adolygiad er mwyn gweld faint o gerbydau sy'n rhan o fflyd Business in Focus, gan nodi sut fathau o gerbydau ydynt, sut fath o danwydd a ddefnyddiant a nifer y milltiroedd a deithir ynddynt bob blwyddyn	Cyhoeddi adroddiad allyriadau sylfaenol Business in Focus	Hyrwyddwr Cynaliadwyedd Business in Focus	Ch2 2023
2.2 Pennu a Chyfrifo Allyriadau Cwmpas 2 sy'n deillio o'r canlynol:			
Trydan a nwy. Casglu data ynglŷn â'r trydan a'r nwy a ddefnyddir (kWh) yn holl adeiladau Business in Focus. Gellir defnyddio biliau cyfleustodau'r adeiladau er mwyn cael gafael ar y data.	Cyhoeddi adroddiad allyriadau sylfaenol Business in Focus	Rheolwr Eiddo a Hyrwyddwr Cynaliadwyedd Business in Focus	Ch2 2023
2.3 Pennu a Chyfrifo Allyriadau Cwmpas 3 sy'n deillio o'r canlynol:			
Teithiau cymudo'r staff. Casglu data ynglŷn â faint o staff sy'n cymudo, pa mor aml, y math o gerbydau a'r math o danwydd a ddefnyddir, a'r pellter. Gellir defnyddio arolwg ar-lein a anfonir at yr holl staff er mwyn cael gafael ar y data.	Cyhoeddi adroddiad allyriadau sylfaenol Business in Focus	Adnoddau Dynol a Hyrwyddwr Cynaliadwyedd Business in Focus	Ch2 2023
Staff sy'n gweithio gartref. Casglu data ynglŷn â faint o staff sy'n gweithio gartref, a pha mor aml. Gellir defnyddio arolwg ar-lein a anfonir at yr holl staff er mwyn cael gafael ar y data.	Cyhoeddi adroddiad allyriadau sylfaenol Business in Focus	Adnoddau Dynol a Hyrwyddwr Cynaliadwyedd Business in Focus	Ch2 2023
Gwastraff. Casglu data ynglŷn â'r math o wastraff a gynhyrchir a faint o wastraff a gynhyrchir (tunelli). Gellir defnyddio gwybodaeth gan ddarparwyr gwasanaethau casglu gwastraff er mwyn cael gafael ar y data.	Cyhoeddi adroddiad allyriadau sylfaenol Business in Focus	Rheolwr Eiddo a Hyrwyddwr Cynaliadwyedd Business in Focus	Ch2 2023
Dŵr. Casglu data ynglŷn â faint o ddŵr a ddefnyddir (litrau) yn adeiladau Business in Focus. Gellir defnyddio biliau cyfleustodau'r	Cyhoeddi adroddiad allyriadau sylfaenol Business in Focus	Rheolwr Eiddo a Hyrwyddwr Cynaliadwyedd Business in Focus	Ch2 2023

adeiladau er mwyn cael gafael ar y data.			
Teithiau Busnes. Casglu data ynglŷn â faint o filltiroedd a deithir ar fusnes a sut fath o gludiant a ddefnyddir (h.y. trên/bws/car). Gellir defnyddio adroddiadau'n sôn am dreuliau teithiau busnes er mwyn cael gafael ar y data.	Cyhoeddi adroddiad allyriadau sylfaenol Business in Focus	Adnoddau Dynol a Hyrwyddwr Cynaliadwyedd Business in Focus	Ch2 2023
Digwyddiadau. Casglu data ynglŷn ag allyriadau sy'n deillio o ddigwyddiadau a gynhelir gan Business in Focus – cludiant i'r digwyddiad, lleoliad	Cyhoeddi adroddiad allyriadau sylfaenol Business in Focus	Adnoddau Dynol a Hyrwyddwr Cynaliadwyedd Business in Focus	Ch2 2023

Cam Gweithredu 3 – Ennyn diddordeb y staff

Yr unig ffordd y gallwn gyflawni ein targedau sero net uchelgeisiol yw trwy sicrhau bod pawb yn Business in Focus yn croesawu'r newidiadau newydd a gynigir yn y Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd hwn. O'r herwydd, mae hi'n hollbwysig inni sicrhau ein bod yn ennyn diddordeb ein staff yn llwyr yn ein mentrau cynaliadwyedd.

Cam Gweithredu	Targed	Cyfrifoldeb	Amserlen
3.1 Deall faint o ddiddordeb sydd gan y staff yn y maes			
Anfon arolwg ledled y cwmni er mwyn deall faint o ddiddordeb sydd gan y staff mewn cynaliadwyedd a datgarboneiddio ar hyn o bryd (h.y. cyn rhoi camau 3.2 a 3.3 ar waith)	Anfon arolwg at y staff (gyda chyfradd ymateb o 90-100%)	Hyrwyddwr Cynaliadwyedd Business in Focus	Ch1 2023
3.2 Cyfathrebu nodau cynaliadwyedd a thargedau sero net Business in Focus			
Llunio llawlyfr cynaliadwyedd ar gyfer y staff yn nodi'r gofynion o ran cynaliadwyedd	Cyhoeddi llawlyfr cynaliadwyedd ar gyfer y staff	Hyrwyddwr Cynaliadwyedd Business in Focus	Ch2 2023
Cynnal cyfarfod ar-lein ar gyfer yr holl dîm er mwyn cyfathrebu camau allweddol a nodir yn y Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd hwn	Cynnal cyfarfod tîm	Hyrwyddwr Cynaliadwyedd Business in Focus	Ch2 2023
Rhoi hyfforddiant i'r staff er mwyn iddynt ddeall pa mor bwysig yw lleihau ein hallyriadau, a'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt	Trefnu rhaglen hyfforddi i godi ymwybyddiaeth y staff o garbon	Adnoddau Dynol a Hyrwyddwr Cynaliadwyedd Business in Focus	Ch4 2023
3.3 Annog a chymell y staff			
Archwilio cymhellion a allai annog y staff i fod yn fwy cynaliadwy, megis cynlluniau aberthu cyflog. Dylid gwneud hyn trwy adolygu cynlluniau y'u rhoddwyd ar waith yn llwyddiannus a thrwy siarad â'r staff yn uniongyrchol er mwyn canfod yr hyn y dymunant ei gael	Cynnig 1+ cymhelliad cynaliadwyedd i staff Business in Focus	Hyrwyddwr Cynaliadwyedd Business in Focus	Ch4 2023
Cael adborth rheolaidd gan y staff er mwyn gweld pa fentrau/cymhellion sy'n gweithio a pha rai nad ydynt yn gweithio	Anfon arolygon adborth bob chwe mis	Hyrwyddwr Cynaliadwyedd Business in Focus	Parhaus
Mynd ati'n rheolaidd i gyfathrebu llwyddiannau Business in Focus mewn perthynas â datgarboneiddio er mwyn parhau i gymell y staff	E-byst rheolaidd yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf	Swyddog Cyfathrebu Mewnol a Hyrwyddwr Cynaliadwyedd Business in Focus	Parhaus
3.4 Adolygu faint o ddiddordeb sydd gan y staff yn y maes			

Anfon arolwg ledled y cwmni er mwyn deall faint o ddiddordeb sydd gan y staff mewn cynaliadwyedd a datgarboneiddio ar ôl rhoi camau 3.2 a 3.3 ar waith	Ar gyfartaledd, mae 50% o'r staff yn ymddiddori mwy yn y maes	Hyrwyddwr Cynaliadwyedd Business in Focus	Ch1 2024

Cam Gweithredu 4 – Cyhoeddi Rhan 2 o'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd hwn

Bydd llwyddo i roi Camau Gweithredu 1-3 ar waith yn rhoi sylfaen hanfodol i Business in Focus ar gyfer ein siwrnai tuag at ddatgarboneiddio. Yn dilyn y rhain, rhaid inni ddechrau rhoi camau mwy penodol ar waith a byddwn yn nodi'r camau hynny yn ail ran ein Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd.

Cam Gweithredu	Targed	Cyfrifoldeb	Amserlen
4.1 Pennu cyfleoedd i ddatgarboneiddio			
Adolygu adroddiad allyriadau sylfaenol Business in Focus i weld ble gellir cyflwyno'r newidiadau dwysaf eu heffaith er mwyn esgor ar y lleihad mwyaf yn ein hallyriadau	Pennu 20+ cam gweithredu	Hyrwyddwr Cynaliadwyedd Business in Focus	Ch2 2023
4.2 Pennu cyfleoedd eraill i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd			
Adolygu arferion busnes Business in Focus i weld a oes yna gyfleoedd i gyfoethogi bioamrywiaeth	Pennu 1+ cam	Hyrwyddwr Cynaliadwyedd Business in Focus	Ch2 2023
Adolygu arferion busnes Business in Focus i weld a oes yna gyfleoedd i reoli tiroedd yn fwy cynaliadwy	Pennu 1+ cam	Hyrwyddwr Cynaliadwyedd Business in Focus	Ch2 2023
4.3 Rhan 2 o'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd			
Defnyddio'r cyfleoedd a bennir yng Nghamau Gweithredu 4.2 a 4.3 i bennu meysydd effaith allweddol ac ymyriadau posibl, ynghyd â chynnal dadansoddiadau cost a budd sylfaenol. Bydd hyn yn sail i'r cynllun strategol a fydd yn cynnwys targedau ansoddol a meintiol ynghyd â chamau gweithredu sy'n angenrheidiol i gyflawni'r targedau hynny (gweler isod i gael enghreifftiau o'r mathau o dargedau a chamau gweithredu y gellid eu cynnwys)	Rhannu Rhan 2 o'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd gyda Bwrdd Business in Focus a rhanddeiliaid eraill	Hyrwyddwr Cynaliadwyedd Business in Focus	Mai 2023
Defnyddio adborth gan y bwrdd a'r rhanddeiliaid allweddol i gwblhau Rhan 2 o'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd hwn.	Cyhoeddi Rhan 2 o'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd	Hyrwyddwr Cynaliadwyedd Business in Focus	Gorffennaf 2023

Enghreifftiau o'r mathau o gamau gweithredu a thargedau y gellid eu cynnwys yn Rhan 2 o'n Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd:

Cam Gweithredu	**Targed**
Dylai'r holl gerbydau y bydd Business in Focus yn eu caffael ar ôl Ionawr 2023 fod yn gerbydau sero net.	Sicrhau bod holl gerbydau Business in Focus yn gerbydau sero net erbyn 2030

Pan fo modd, defnyddio tariff ynni adnewyddadwy yn adeiladau Business in Focus.	Sicrhau bod holl adeiladau Business in Focus â thariff ynni adnewyddadwy erbyn 2025
Gosod paneli solar ffotofoltäig ar holl adeiladau addas Business in Focus.	Gosod paneli solar ffotofoltäig sy'n cyfateb i 200kW ar adeiladau Business in Focus erbyn 2030
Gwella effeithlonrwydd ynni (trydan) trwy osod goleuadau LED yn lle'r goleuadau presennol, trwy osod offer synhwyro symudiadau, trwy annog y staff i ddiffodd goleuadau a chyfarpar electronig pan na fyddant yn eu defnyddio, trwy uwchraddio cyfarpar electronig a/neu trwy osod tapiau dŵr berwedig ynni-effeithlon mewn ceginau.	Lleihad o 50% ar gyfartaledd yn y defnydd a wneir o drydan yn holl adeiladau Business in Focus
Gwella effeithlonrwydd ynni (nwy) trwy uwchraddio hen foeleri, trwy roi gwasanaeth rheolaidd i foeleri, trwy wella deunydd inswleiddio a/neu trwy osod falfiau thermostatig.	Lleihad o 50% ar gyfartaledd yn y defnydd a wneir o nwy naturiol yn holl adeiladau Business in Focus erbyn 2025
Gosod pympiau gwres o'r ddaear yn holl adeiladau addas Business in Focus.	
Defnyddio llai o ddŵr yn adeiladau Business in Focus trwy osod toiledau/tapiau sy'n arbed dŵr, trwy ganfod a thrwsio gollyngiadau a/neu trwy ostwng pwysedd y dŵr pe bai angen.	Lleihad o 25% ar gyfartaledd yn y defnydd a wneir o ddŵr yn holl adeiladau Business in Focus erbyn 2025
Lleihau faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi yn sgil gweithgareddau Business in Focus trwy ddarparu biniau ailgylchu newydd ar gyfer gwahanu gwastraff yn holl adeiladau Business in Focus, trwy leihau nifer y bagiau duon sydd ar gael a/neu trwy roi gwybod i'r staff pa mor bwysig yw dilyn yr hierarchaeth gwastraff.	Sicrhau bod holl adeiladau Business in Focus yn gwahanu eitemau sydd i'w hailgylchu, yn cynnwys gwastraff bwyd, erbyn 2025 Anfon <5% o'n gwastraff i safleoedd tirlenwi erbyn 2030 Lleihad o 50% mewn allyriadau sy'n deillio o waredu gwastraff
Diweddaru'r polisi caffael er mwyn lleihau gwastraff a sicrhau y gellir caffael mewn modd mwy cynaliadwy. Cyflenwyr lleol fydd y cyflenwyr a ffefrir; dylid defnyddio cyn lleied o eitemau â phosibl; dylai'r deunyddiau pacio fod yn gynaliadwy; a dylid defnyddio arferion gweithgynhyrchu a chludo cynaliadwy.	
Parhau i annog y staff i weithio gartref pan fo hynny'n briodol.	Cynnydd o 25% yn nifer y staff sy'n cymudo i'r gwaith trwy ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu trwy rannu car Lleihad o 50% yn yr allyriadau sy'n deillio o deithiau cymudo'r staff erbyn 2025
Cynnig cymhellion teithio cynaliadwy i'r staff (e.e. beicio i'r gwaith, cynlluniau aberthu cyflog) er mwyn annog y staff i ddewis opsiynau mwy cynaliadwy wrth gymudo.	
Pan fo modd, sicrhau y bydd adeiladau Business in Focus yn y dyfodol yn cael eu lleoli wrth ymyl trafnidiaeth gyhoeddus.	

Llunio polisi newydd ar gyfer teithiau busnes cynaliadwy lle nodir mai'r unig ffordd y gall y staff hawlio milltiroedd busnes mewn cerbyd preifat yw trwy ateb y cwestiynau canlynol: 1. A ellir cynnal y cyfarfod mewn modd rhithwir? 2. A oes modd ichi deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus? 3. A oes modd ichi rannu car? Atebion enghreifftiol: 1. Mae'r cleient wedi gofyn am gael cyfarfod wyneb yn wyneb 2. Byddai'r unig opsiynau o ran trafnidiaeth gyhoeddus yn golygu taith deirawr (taith a fyddai'n cymryd 40 munud yn unig mewn car) 3. Nid oes unrhyw un o weithwyr eraill Business in Focus yn mynychu'r cyfarfod	Cynnydd o 25% yn nifer y staff sy'n cymudo i ddigwyddiadau gwaith trwy ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu trwy rannu car Lleihad o 50% yn nifer yr allyriadau sy'n deillio o deithiau busnes erbyn 2025
Llunio Polisi Digwyddiadau Cynaliadwy newydd ar gyfer Business in Focus er mwyn sicrhau y bydd modd cyrraedd yr holl ddigwyddiadau a gynhelir gan Business in Focus trwy ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, ynghyd â sicrhau y bydd cyn lleied o fwyd â phosibl yn cael ei wastraffu ac na fydd eitemau plastig untro yn cael eu defnyddio (e.e. platiau untro, cwpanau coffi untro ac ati)	Lleihad o 50% mewn allyriadau sy'n deillio o ddigwyddiadau a gynhelir gan Business in Focus

Cymeradwyaeth

- Enw: Gareth Jones
- Swydd: Pennaeth Eiddo a Chyfleusterau
- Llofnod:
- Dyddiad: 10/1/2022
- Dyddiad yr adolygiad nesaf: [[Heddiw + 12 mis]]